Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Meithrin Cwrt Henri**
**The Reading Rooms**
**Dryslwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA32 8RU**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Cwrt Henri wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Ionawr 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r lleoliad o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Ymestyn medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant. Mae llawer o'r plant yn datblygu eu medrau'n gyson ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft pan fyddant yn cyfrif gwrthrychau mewn gêm ryngweithiol, yn enwi siapiau ac yn paratoi bwyd yn y gegin. Mae medrau siarad a gwrando y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda, er enghraifft wrth iddynt drafod y tywydd a nodweddion dail y coed. Defnyddir caneuon, rhigymau a charolau Nadolig yn fedrus ac yn gyson er mwyn cyflwyno'r iaith a datblygu geirfa'r plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o'r Gymraeg ac mae mwyafrif ohonynt yn hyderus wrth drafod ac esbonio'r hyn maent yn ei wneud.

Mae digon o gyfleoedd priodol i'r plant weld iaith ysgrifenedig ar arddangosfeydd y lleoliad, ac mae ymarferwyr yn tynnu sylw'r plant at eirfa ac ymadroddion yn ystod gweithgareddau ymarferol. Mae hyn yn atgyfnerthu ac yn datblygu eu dealltwriaeth o eirfa a thermau yn y Gymraeg yn dda.

Mae rhifau hefyd yn cael lle amlwg mewn arddangosfeydd ym mhob rhan o'r adeilad, ac mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd perthnasol i gyfeirio atynt yn ystod sesiynau. Er enghraifft, mae'r arddangosfeydd o waith y plant ar y waliau yn dangos eu bod wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i adnabod siapiau.

Mae'r lleoliad yn adnabod anghenion y plant yn dda ac yn cynllunio'n fanwl er mwyn bodloni eu hanghenion. Mae'r ymarferwyr wedi gwneud cynnydd da o ran cynllunio er mwyn ymestyn medrau plant yn systematig wrth ddatblygu eu lleferydd. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o gynllun iaith Mudiad Meithrin er mwyn datblygu medrau llythrennedd y plant yn briodol. Mae rhan fwyaf o'r plant bellach yn defnyddio adnoddau TGCh yn hyderus ac yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn sicrhau bod cyfleoedd cyson yn bodoli er mwyn datblygu medrau TGCh yn gydlynol.

**Argymhelliad 2: Datblygu manylder y cynllunio i hyrwyddo dilyniant cyson ym medrau'r plant**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad bellach wedi datblygu gweithdrefnau cynllunio sy'n fwy effeithiol na'r rhai blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau allweddol y rhan fwyaf o'r plant yn fwy effeithiol, yn enwedig yn ystod gweithgareddau ymarferol. Bellach, mae'r lleoliad yn defnyddio cynllunio dyddiol, manwl sy'n nodi amcanion dysgu tasgau ffocws yn glir. Mae ymarferwyr yn cofnodi cyflawniad y plant yn ddyddiol ac yn defnyddio'r asesiadau hyn yn effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn nodi'r hyn sydd ei angen yn y ddarpariaeth a'r gweithgareddau er mwyn targedu tasgau i ddatblygu medrau penodol y plant yn effeithiol. Mae'r system gynllunio bellach wedi'i gwreiddio'n dda ac mae'n cael ei defnyddio'n hyderus gan yr ymarferwyr i ddatblygu medrau'r plant. Mae manylder y cynllunio hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar safon y ddarpariaeth ar draws yr holl ardaloedd dysgu. Er enghraifft, targedir tasgau penodol i ddatblygu medrau TGCh y plant ar draws y mwyafrif o'r ardaloedd dysgu yn llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn defnyddio system ddefnyddiol ar gyfer olrhain medrau plant yn systematig. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn rhoi sylw priodol i ystod dda o fedrau ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y lleoliad drefn bendant ar gyfer y dydd, sy'n helpu plant i setlo a chyfarwyddo â threfn. Darperir cyfleoedd defnyddiol i'r plant ddysgu gan oedolion yn eu chwarae rhydd, a thrwy gymryd rhan mewn sesiynau stori a chanu. Mae'r sesiwn agoriadol yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer bwydo iaith yn gyson i'r plant. Maent yn clywed patrwm da o iaith, ac yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol i'r holl blant**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Bellach, mae cynlluniau'r lleoliad yn cynnwys tasgau sy'n cynnig lefel briodol o her i fwyafrif y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau penodol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion unigolion yn effeithiol. Trwy hyn, maent yn herio'r plant i gyflawni'n dda yn eu chwarae ac yn ystod gweithgareddau mwy ffurfiol fel amser stori a sesiynau trafod y tywydd. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o strategaethau holi ac ateb trwy ddefnyddio pypedau i annog y plant i gofio enwau siapiau. Mae ymarferwyr yn ymestyn plant mwy abl i ddatblygu eu medrau iaith ymhellach wrth chwarae gemau bwrdd amrywiol sy'n rhoi ffocws clir ar gyfateb gwrthrychau anghyfarwydd.

Darperir cyfleoedd addas i ddatblygu'r plant yn ddysgwyr annibynnol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n fedrus wrth gyd-chwarae â'r plant a'u hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain i ddatrys problemau. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar eu gallu i ddyfalbarhau.

Mae arferion dyddiol y lleoliad yn llifo'n llwyddiannus ac mae'r plant yn adnabod y drefn yn hyderus. Mae'r strwythur cadarn a phwrpasol hwn yn sicrhau bod rhan

fwyaf o'r plant yn cael eu hymestyn yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gosod ffocws cadarn ar ddarparu heriau buddiol er mwyn ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn barhaus. Mae'r ymarferwyr yn nodi mannau cychwyn y plant yn ogystal â'r cynnydd a wnânt yn ystod sesiynau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn systematig i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau treiddgar yn ystod sesiynau torfol ac wrth weithio gyda grwpiau penodol er mwyn sicrhau bod y disgyblion mwy abl yn cael eu hymestyn yn gyson. Mae hyn yn galluogi llawer o blant i wneud penderfyniadau a chymryd perchnogaeth dros eu dysgu. O ganlyniad, mae lefel ymrwymiad llawer o'r disgyblion yn ystod gweithgareddau ffocws yn dda, yn enwedig y rhai mwy abl.

**Argymhelliad 4: Sefydlu gweithdrefnau arfarnu i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn adnabod y lleoliad yn dda. Rhyngddynt, maent wedi datblygu systemau effeithiol er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth a'r safonau y mae plant yn eu cyflawni. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn seiliedig ar ystod eang o ffynonellau gan gynnwys arsylwadau uniongyrchol. O ganlyniad, mae gan yr arweinydd a chadeirydd y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau yn ogystal â llawer o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae'r arweinydd yn defnyddio deilliannau hunanarfarnu'n briodol er mwyn cynllunio ar gyfer gwella. Mae'r cynllun yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am agweddau penodol yn ogystal â therfynau amser addas a meini prawf llwyddiant priodol. Mae'r pwyllgor rheoli'n dwyn y lleoliad i gyfrif yn dda ac yn monitro'r cynnydd yn rheolaidd. Mae'r arweinydd yn cofnodi sylwadau buddiol sy'n nodi camau gweithredu yn rheolaidd. Mae'r sylwadau yn cynnwys manylion gwerthfawr yn seiliedig ar yr hyn y mae angen ei wneud nesaf ac mae'r arweinydd yn mynd i'r afael â'r materion allweddol yn ddiymdroi.

Mae'r cynllunio manwl hyn ar gyfer gwella eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar waith y lleoliad. Er enghraifft, mae'r gwelliannau sylweddol i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant wedi arwain at fedrau da ymysg bron pob un. Mae'r ymarferwyr bellach yn gweithredu'n fwy strategol ac mae hyn yn galluogi'r lleoliad i wneud cynnydd da o ran sicrhau gwelliant.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r pwyllgor rheoli yn darparu cymorth a chefnogaeth effeithiol i'r lleoliad. Mae cadeirydd y pwyllgor yn wybodus iawn am y cryfderau yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae wedi cydweithio'n agos iawn gyda'r arweinydd er mwyn monitro'r cynnydd i fodloni'r argymhellion. Mae hefyd wedi gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr ag athro cyswllt yr awdurdod lleol i gynnal y momentwm i sefydlu arweinyddiaeth sefydlog ar gyfer y lleoliad.

O ganlyniad i ymroddiad cadarn y cadeirydd i ddatblygu ei dealltwriaeth o ofynion y Cyfnod Sylfaen, mae'r pwyllgor bellach yn gweithredu llawer yn fwy strategol. Mae gan aelodau'r pwyllgor ymwybyddiaeth a throsolwg strategol da o weithgareddau penodol er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cynllunio'n fwriadus er mwyn cynorthwyo'r ymarferwyr i ddatblygu plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau llafar Cymraeg llawer o'r plant. Mae'r pwyllgor yn cynnwys y rhieni yn llwyddiannus wrth ddatblygu'r weledigaeth hon trwy eu hannog i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn i arfarnu gwaith ymarferwyr sy'n cynnwys arsylwadau uniongyrchol a chyfarfodydd amserol. Mae'r gweithgarwch hwn yn effeithiol iawn ac yn arwain at arfarniadau trylwyr sy'n nodi anghenion datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn briodol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau arweinyddiaeth sefydlog i'r lleoliad**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd sylweddol o ran arweinyddiaeth ers yr arolygiad craidd, er gwaethaf ymdrechion y pwyllgor rheoli. Bellach, mae arweinydd brwdfrydig a phrofiadol wedi ei phenodi. Mae'n deall hanfodion y swydd ac mae wedi mynd i'r afael â nhw'n effeithiol. Mae ganddi weledigaeth glir ac mae'n ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Mae rolau a chyfrifoldebau sy'n adlewyrchu cynllun datblygu'r lleoliad wedi'u diffinio'n glir ac mae'r ymarferwyr a'r pwyllgor rheoli yn eu deall yn glir. Trefnir amser a dyletswyddau'r arweinydd yn dda wrth iddi hefyd drefnu bod y cynorthwyydd yn sicr o'i dyletswyddau hithau. O ganlyniad, mae'r arweinydd a'r cynorthwyydd yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn gweithio'n gynhyrchiol er mwyn symud y lleoliad yn ei flaen. Goruchwylir hyn oll yn fanwl ac yn drylwyr gan gadeirydd y pwyllgor rheoli.

O ganlyniad i benodiad yr arweinydd a chefnogaeth aelodau'r pwyllgor rheoli, mae'r lleoliad yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol sydd â ffocws clir ar gynllunio profiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y plant, sy'n datblygu eu medrau a'u lles yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.